Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Interplay @ The Play Hwb**

**Interplay Intergrated Play & Leisure**
**7 Llangwm Penlan**
**Abertawe**
**SA5 7JT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

31/05/2023

# Interplay @ The Play Hwb

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Interplay (Intergrated Play and Leisure) |
| Lleoedd cofrestredig | 25 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Y cyntaf ers cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw]<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae’r plant yn fodlon eu byd ac wedi ymgartrefu yn y clwb gwyliau hwn. Symudant yn rhwydd o gwmpas y lleoliad, gan ddewis o ystod dda o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i fodloni eu hanghenion unigol. Maent yn ffurfio cysylltiadau cadarnhaol gyda'r staff ac yn mwynhau eu hamser yn y clwb.

Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn aml yn darparu cymorth un i un i'r plant ac yn dod i'w hadnabod yn dda. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau diddorol i ymestyn profiadau chwarae a dysgu'r plant.

Mae'r clwb wedi'i leoli mewn tŷ sydd wedi'i drawsnewid. Mae digon o le i'r plant symud o gwmpas, chwarae a bod yn egnïol. Caiff y fynediad rhwydd i'r man chwarae awyr agored cysylltiedig drwy bob sesiwn. Maent yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn yr awyr agored. Mae ystod dda o adnoddau ar gael.

Mae'r lleoliad hwn yn darparu gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol i blant sydd ag ystod eang o anghenion. Mae'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig yn cynnwys clybiau gwyliau a chlybiau y tu allan i oriau ysgol. Yn ystod yr arolygiad hwn dim ond y ddarpariaeth gwyliau rydym wedi ei arsylwi. Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru yr arolygiad dros ddau ymweliad. Yn ystod ein hymweliad cyntaf, canfuom fethiannau difrifol yn y ffordd y mae’r clwb yn cael ei redeg o ddydd i ddydd gan gynnwys diffyg cydymffurfio â nifer o reoliadau. Cafodd hyn effaith ar iechyd, diogelwch a lles y plant. Penderfynodd yr unigolyn cyfrifol ar unwaith i gau’r holl wasanaethau y mae’n eu cynnig i Blant pedair i un ar ddeg oed dros dro. Buont ar gau am rai wythnosau. Yn ystod ein hail ymweliad, gwelsom welliannau sylweddol yn y ffordd roedd y clwb yn cael ei reoli a'i weithredu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y clwb wedi ymrwymo i gynnal gwelliannau a chynnig darpariaeth chwarae o ansawdd uchel.

## Llesiant — Da

Caiff y plant ryddid i ddewis sut i dreulio eu hamser yn y clwb. Maent yn dewis yr hyn a wnânt ac yn symud yn rhwydd rhwng gweithgareddau. Maent yn cyfathrebu'n hyderus mewn ffyrdd sy'n unigol iddynt am eu bod yn gwybod y bydd oedolion yn ymateb i'w hanghenion. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn chwerthin wrth rolio am yn ôl i lawr llethr ar degan reidio am ei fod yn gwybod y byddai aelod o'r staff yn ei wthio yn ôl i fyny eto.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y clwb gwyliau. Maent yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda'r staff, gan ryngweithio i daflu peli basged drwy gylch neu siarad wrth eistedd gyda'i gilydd i fwyta cinio.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda. Chwaraeant ochr yn ochr â'i gilydd fel sy'n briodol i'w hoedran neu gamau datblygu. Mae llawer yn cael cymorth sensitif un i un gan y staff i'w helpu i reoli eu diwrnod a chael mynediad i'r gweithgareddau sydd ar gael fel peintio neu chwarae â dŵr.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae. Nid oes unrhyw gyfyngiadau arnynt ac eithrio lle bo angen i'w cadw'n ddiogel. O ganlyniad, maent yn cael pleser gyda'r gweithgareddau a ddewisant. Gwelsom y plant yn troelli o gwmpas wrth iddynt eistedd mewn troellwyr mawr, camu ar hyd cerrig synhwyraidd a chwarae ochr yn ochr wrth yr hambwrdd tywod. Roedd y plant yn chwerthin wrth iddynt wisgo hetiau a sgarffiau o'r bocs gwisgo fyny ac yn cynnwys y staff drwy osod hetiau ar eu pennau. Treuliodd rhai o'r plant gyfnodau estynedig yn archwilio paent tywyll gyda'u dwylo neu'n chwarae gyda theganau byd bach.

Caiff y plant gyfleoedd da i ddysgu a datblygu wrth chwarae a'r profiadau a ddarperir ar eu cyfer. Yn ystod ein hail ymweliad, cawsant brofiad llawer ehangach o weithgareddau ac adnoddau. O ganlyniad, mae'r plant yn ymgysylltu'n gyson, gan eu helpu i ganolbwyntio a dyfalbarhau. Gallant ddatblygu sgiliau corfforol mawr megis wrth ddefnyddio'r ffrâm ddringo, taflu peli neu chwarae yn y pwll peli. Anogir sgiliau cymdeithasol a hunangymorth wrth iddynt chwarae ochr yn ochr â'i gilydd neu fwyta'u cinio'n annibynnol.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y clwb bolisïau a gweithdrefnau i gefnogi'r staff i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn dda gyda mynd i'r toiled ac anghenion newid. Maent yn rheoli'r rhain yn sensitif ac yn sicrhau eu bod yn cynnal preifatrwydd ac urddas y plant. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y clwb systemau ar waith i gasglu gwybodaeth am alergeddau, iechyd ac anghenion unigol y plant cyn iddynt fynychu'r lleoliad.

Mae polisi amddiffyn plant addas yn ei le ac mae'r bobl sy'n rhedeg y clwb yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i amddiffyn plant. Fodd bynnag, nid oedd ganddynt systemau ar waith i gofnodi a monitro unrhyw anafiadau neu farciau a allai fod gan y plant pan fyddant yn cyrraedd y clwb ac ni ddilynodd y staff y gweithdrefnau ar gyfer monitro absenoldeb. Mae'r staff y siaradwyd â nhw yn dangos gwybodaeth addas mewn perthynas ag adnabod arwyddion o gam-drin neu esgeulustod. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad cyntaf roeddent yn llai hyderus ynghylch gweithdrefnau adrodd. Yn ystod ein hail ymweliad, esboniodd y staff weithdrefnau amddiffyn plant ac adrodd yn hyderus er nad oedd rôl aelodau'r bwrdd mewn gweithdrefnau amddiffyn plant yn gwbl glir. Yn ystod ein hymweliad cyntaf, ni roddodd y staff weithdrefnau hylendid addas ar waith mewn perthynas ag amser bwyd. Er enghraifft, nid oeddent yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta ac nid oedd ganddynt drefniadau addas ar gyfer ble roedd y plant yn bwyta. Mae'r bobl sy'n rhedeg y clwb yn sicrhau bod digon o'r staff yn cael hyfforddiant perthnasol ar gyfer rhoi unrhyw feddyginiaeth benodol y gallai fod ei hangen ar y plant. Fodd bynnag, nid oedd systemau ar waith i gael caniatâd y rhieni bob amser i roi meddyginiaeth neu i gofnodi a oedd y staff yn ei rhoi. Nid oedd caniatâd ar gyfer triniaeth feddygol frys ar gael. Nid oedd digon o'r staff yn y clwb wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig addas. Mae'r clwb yn cofnodi presenoldeb y plant a pha aelodau o'r staff sy'n gofalu amdanynt. Fodd bynnag, nid oeddent yn cofnodi amserau presenoldeb gwirioneddol ac roeddent yn cofnodi rhywfaint o wybodaeth ddyddiol bwysig ar fwrdd 'wipe clean' yr oeddent yn ei glirio ar ddiwedd pob sesiwn. Yn ein hail ymweliad, canfuom fod y bobl sy'n rhedeg y clwb a'r staff wedi cymryd camau cadarn i unioni'r holl faterion a nodwyd a sicrhau bod y clwb yn rhedeg yn effeithiol ac yn ddiogel.

Mae rhyngweithio'r staff yn gadarnhaol iawn. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn, yn aml yn gweithio ar sail un-i-un. Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn fedrus, cyfeillgar a cynnes, gan ymddwyn fel modelau rôl da. Maent yn gwrando ar farn y plant ac yn ei pharchu ac yn gweithredu arnynt yn unol â hynny. Er enghraifft, maent yn galluogi'r plant i fwyta lle maent fwyaf cyfforddus tra'n parhau i ddarparu mannau hylan, cymdeithasol ar gyfer hyn. O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i ymlacio a bod yn gyfforddus yn y clwb.

Mae'r staff yn datblygu amgylchedd ysgogol ar gyfer chwarae, dysgu a datblygu. Maent yn darparu'r rhan fwyaf o'u gweithgareddau yn yr awyr agored gan mai dyma lle mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dewis chwarae. Sefydlodd y staff yr amgylchedd cyffredinol gydag amrywiaeth dda o weithgareddau apelgar i'r plant gael mynediad iddynt drwy gydol y dydd. Maent hefyd yn cynllunio amrywiaeth ehangach o weithgareddau synhwyraidd megis gloop, swigod, chwarae dŵr a gemau parasiwt y maent yn eu cyflwyno ar wahanol adegau yn

ystod y sesiwn i ysgogi diddordeb ac ymgysylltiad. Mae'r staff yn olrhain mwynhad/ymgysylltu'r plant yn erbyn datblygiad sgiliau. Maent yn adolygu pob sesiwn yn ddyddiol ac yn cwblhau cofnodion gwerthuso perthnasol.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y clwb yn sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel ac yn briodol lân. Yn dilyn ein hymweliad cyntaf, maent wedi adolygu arfer ac wedi gwella diogelwch wrth fynd a dod o'r eiddo tra'n sicrhau eu bod yn ystyried cyngor diogelwch tân perthnasol. Maent hefyd wedi symud planhigion a allai fod yn beryglus o'r ardal awyr agored, gan wella diogelwch a chreu mannau chwarae ychwanegol. Maent yn sicrhau eu bod yn cofnodi'r ymwelwyr a ddaw i'r safle. Mae ganddynt asesiadau risg addas ar waith y maent yn eu hadolygu'n rheolaidd, y gall y staff gael mynediad atynt. Mae'r rhain yn cynnwys rhai asesiadau risg personol ar gyfer plant unigol. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda ac yn ddiweddar maent wedi diweddaru eu gwybodaeth o asesu risg deinamig. Proses lle mae'r staff yn asesu risg yr hyn y mae'r plant yn ei wneud yn barhaus, gan ystyried y manteision yn erbyn y risgiau ac yn ymyrryd os bydd angen i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r staff a'r plant bellach yn cynnal arferion gwagio'r adeilad mewn argyfwng o bryd i'w gilydd, ac yn eu cofnodi. Maent wedi datblygu bag gwagio'r adeilad mewn argyfwng hawdd cael gafael ynddo ac wedi prynu stretsier plygadwy i sicrhau bod ganddynt bopeth y gallai fod ei angen arnynt mewn argyfwng.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y clwb yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael i ddarparu profiadau chwarae diddorol a hwyliog i'r plant. Mae adnoddau a chyfarpar yn cael eu gosod yn yr awyr agored yn ddyddiol ac yn hyrwyddo amrywiaeth o ddeilliannau dysgu i'r plant. Mae canopi yn yr awyr agored yn rhoi rhywfaint o gysgod mewn tywydd heulog a defnyddir byrddau sy'n plygu i droi'r man chwarae yn fan i fwyta. Mae'r staff hefyd yn darparu matiau picnic y gellir ei sychu'n lân i'r plant y byddai'n well ganddynt eistedd ar y llawr i fwyta. Mae'r amgylchedd dan do yn darparu ystod bellach o adnoddau i'r plant ddewis ohonynt. Er enghraifft, traciau trên neu deganau botwm gwthio electronig. Mae ystafell gyda phwll peli mawr i'r plant ei archwilio hefyd. Mae cyfleusterau toiled addas wedi'u lleoli y tu allan i'r ystafell chwarae.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad at adnoddau o ansawdd da sy'n ennyn eu sylw ac yn eu diddori. Mae cynllun yr amgylchedd yn cefnogi annibyniaeth y plant wrth iddynt symud o gwmpas i ddewis yr hyn y maent yn ei wneud.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Da**

Mae gan yr unigolyn cyfrifol weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad. Fodd bynnag, nid oedd wedi cynnal trosolwg digonol o redeg y clwb o ddydd i ddydd. Yn dilyn ein hymweliad cyntaf, penderfynodd gau’r gwasanaethau y maent yn eu cynnig i blant pedair i un ar ddeg oed er mwyn ail-werthuso a gwneud gwelliannau i’w darpariaeth. Ers ein hymweliad cyntaf, mae wedi gweithio'n dda gyda'r staff i greu ethos cadarnhaol a darparu gwasanaeth da. Er enghraifft, maent wedi adolygu polisïau a gwaith papur, gan gynnwys cofnodion y plant a’u Datganiad o Ddiben sydd bellach yn rhoi darlun cywir o'r ffordd mae’r clwb yn gweithredu. Maent wedi hysbysu AGC am newidiadau perthnasol yn y clwb. Maent hefyd wedi adolygu eu darpariaeth i wella cyfleoedd chwarae ac hefyd y canlyniadau i'r plant.

Cynhaliodd y bobl sy'n rhedeg y clwb arolwg ansawdd y gofal yn 2022. Fodd bynnag, roedd diffyg manylder yn hwn ac nid oedd yn cynnwys barn y staff fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y clwb yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad cyntaf, nid oedd rhywfaint o waith papur yn ymwneud â gwiriadau addasrwydd ar gael i'w archwilio. Yn ystod ein hail ymweliad, roedd hyn wedi'i gywiro ac roedd cofnodion ar gyfer aelod newydd o'r staff yn gyflawn. Mae aelod cymwys a phrofiadol iawn o staff ehangach yr elusen yn gweithredu dros dro fel y person â gofal ac mae'r rhan fwyaf o'r staff eraill bellach wedi cael hyfforddiant gwaith chwarae a hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig addas. Mae hyfforddiant mewnol a chyfarfodydd staff rheolaidd bellach yn eu lle i adnewyddu gwybodaeth y staff a'u diweddaru. Mae'r bobl sy'n rhedeg y clwb wedi ailddechrau system effeithiol o werthuso a goruchwylio'r staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda i gyflawni eu rolau a bod cyfathrebu yn y clwb wedi gwella.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y clwb a'r staff yn datblygu perthnasoedd defnyddiol gyda'r rhieni ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am eu plant drwy adborth llafar a systemau electronig. Mae ganddynt system atgyfeirio ar waith ac maent yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am y plant a'u hanghenion cyn y gallant fynychu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau ei fod yn cynnal arolwg blynyddol o ansawdd y gofal sy'n ystyried barn y plant, y rhieni, y staff ac unrhyw bartïon perthnasol eraill, yn arfarnol ac yn llywio cynllun gweithredu ar gyfer unrhyw welliannau neu ddatblygiadau y maent yn eu nodi. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 14 - Trefniadaeth | Parhau i fonitro, sefydlu a datblygu ymhellach y gwelliannau diweddar i drefniadaeth a gweithrediad y clwb i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal ac yn parhau i symud ymlaen. |
| Safon 20 - Amddiffyn plant | Sicrhewch fod y polisi diogelu yn manylu'n glir y gweithdrefnau i'w dilyn os bydd gan y staff unrhyw bryderon am yr unigolyn cyfrifol gan gynnwys rôl a chyfrifoldebau bwrdd yr ymddiriedolwyr. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/08/2023